

'A yw Prydain yn Decach?' Ffeithiau a chanfyddiadau allweddol: ethnigrwydd

'A yw Prydain yn Decach?' (2015) yw adolygiad pum-mlyneddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain. Mae'r daflen ffeithiau hon yn dirnad rhai o'n canfyddiadau allweddol ni ar gyfer grwpiau ethnig gwahanol.

Mae hil yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; mae'n diogelu unigolion rhag triniaeth annheg; ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Mae'n diogelu pob grŵp ethnig rhag gwahaniaethu mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, gweithgarwch cyhoeddus a darparu gwasanaethau. Mae ffigurau gan Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chofnodion Cenedlaethol yr Alban yn dangos fod yna **54.6 miliwn** o bobl Wyn, a **8.3 miliwn** o bobl o leiafrifoedd ethnig yn byw ym Mhrydain yn 2011 (**1.3 miliwn** o bobl o hil Gymysg; **1.5 miliwn** Indiaidd; **1.7 miliwn** Pacistanaidd / Bangladeshaid; **1.9 miliwn** Affricanaidd / Du / Caribiaidd, ac **1.9 miliwn** o bobl o hil 'Arall').




Mae disgyblion o hil Asiaidd a Chymysg yn perfformio'n well na disgyblion Gwyn mewn addysg, tra bod plant Caribiaidd, Affricanaidd a Du yn disgyn yn ôl



Yn Lloegr yn 2012/13, roedd mwy o ddisgyblion Gwyn yn ennill o leiaf 5 TGAU gradd A*- C (**60.2%**) na disgyblion Pacistanaidd / Bangladeshaid (**58.1%**) a disgyblion Affricanaidd / Caribiaidd / Du (hefyd **58.1%**). Fodd bynnag, roedd disgyblion Indiaidd (**75.7%**), disgyblion hil gymysg (**62.5%**) a disgyblion eraill (**64%**) yn perfformio'n well na'u cymheiriaid Gwyn.

Yng Nghymru yn 2011-13, enillodd **51.6%** o ddisgyblion gwyn o leiaf 5 TGAU gradd A*- C. Roedd hyn yn debyg i ddisgyblion Pacistanaidd / Bangladeshaid (**51.2%**) a disgyblion hil gymysg (**53.6%**) ond yn uwch na disgyblion Affricanaidd / Caribiaidd / Du (**41.4%**). Roedd disgyblion Indiaidd (**60.0%**) a disgyblion 'Arall' (**56.4%**) yn perfformio'n well na'u cymheiriaid Gwyn.

Yn yr Alban, y sgôr tariff cyfartalog ar gyfer disgyblion Gwyn-Albanaidd oedd 191 pwynt yn 2012/13:



sgoriau tariff cyfartalog uwch, o gymharu â disgyblion gwyn-Albanaidd.



Yn Lloegr, roedd y gyfradd gwahardd ar gyfer disgyblion Du / Affricanaidd / Caribiaidd

(51.9 fesul 1,000 o ddisgyblion) yn uwch nag ar gyfer disgyblion Gwyn (42.2) yn 2012/13. Fodd bynnag, mewn plant Gwyn o'r Alban, roedd y gyfradd gwahardd yn uwch na phob grŵpiau ethnig **(33.5 gwaharddiad i bob 1,000 o ddisgyblion).** Cafodd disgyblion Affricanaidd / Caribiaidd / Du gyfradd gwahardd ail uchaf **(27.8).**



Yng Nghymru roedd y gyfradd gwahardd yn gostwng ar gyfer pob ethnigrwydd

rhwng 2008/09 a 2012/13, yn enwedig ar gyfer disgyblion Du. Yn 2012/13 nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd gwahardd rhwng y rhan fwyaf o grŵpiau ethnig. Yr unig eithriad oedd plant Asiaidd yr oedd eu cyfradd gwahardd **(13.9 am bob 1,000)** yn is nag ar gyfer plant Gwyn **(39.2).**

Ym Mhrydain nid oedd cyfran y bobl ifanc a oedd heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) yn wahanol rhwng pobl Wyn a'r rhai o leiafrifoedd ethnig yn 2013.

Ym Mhrydain roedd gan **26.8%** o bobl Wyn gymhwyster lefel gradd yn 2013. Roedd hyn yn is nag ar gyfer pobl Affricanaidd / Du **(34.7%),** Indiaidd **(49.5%),** hil Caribî / Cymysg **(36.6%)** ac 'Arall' **(40.2 %).** Ni chanfuwyd gwahaniaeth rhwng pobl Wyn a phobl Bacistanaidd / Bangladeshaidd yn 2013.



Mae gan bobl o leiafrifoedd ethnig ragolygon cyflogaeth gwaeth na sydd gan bobl Wyn

Ym Mhrydain, roedd unigolyn o leiafrif ethnig yn fwy na dwywaith mor debygol o fod yn ddi-waith na pherson Gwyn yn 2013. Roedd pobl Ddu yn profi rhai o'r codiadau mwyaf mewn diweithdra rhwng 2008 a 2013, ac roedd gan ddynion Mwslim ifanc a menywod Hindŵaidd ifanc cyrion Llundain y cyfraddau diweithdra uchaf yn 2013, gan awgrymu crynoddau daearyddol o ddiweithdra ethnig / rhyw.

Roedd pobl o leiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 5% o aelodau byrddau FTSE 100 yn 2014. Yn y sector cyhoeddus, roedd pobl o leiafrifoedd ethnig yn cynrychioli **7%** o weithwyr mewn graddau uwch yn y Gwasanaeth Sifil. Mewn cyferbyniad, roedd **11%** o'r boblogaeth yn dod o leiafrifoedd ethnig.



Gostyngodd enillion cyfartalog fesul awr gweithwyr (gan gynnwys effaith chwyddiant) rhwng 2008 a 2013. Ar gyfartaledd (enillion fesul awr canolrif y gweithwyr) yn 2013, roedd pobl yn cael eu talu tua 65 ceiniog yr awr yn llai nag yn 2008. Fodd bynnag, roedd pobl o leiafrifoedd ethnig wedi cael eu heffeithio'n arbennig. Roedd pobl Affricanaidd / Caribiaidd / Du yn ennill tâl £1.20 yr awr yn llai yn 2013 o gymharu â 2008, tra bod pobl o ethnigrwydd Cymysg yn ennill 90 ceiniog yr awr yn llai.

Mae rhai lleiafrifoedd ethnig yn cael canlyniadau iechyd gwael

Yng Nghymru a Lloegr roedd marwolaethau babanod yn sylweddol uwch ar gyfer babanod Affricanaidd / Caribiaidd (**4.4 o farwolaethau i bob 1000 o enedigaethau**), Pacistanaidd / Bangladeshaid (**6.5**) a babanod Indiaidd (**4.5**), o gymharu â babanod Gwyn (**3.4**) yn 2012. **Yn yr Alban** roedd babanod De Asiaidd yn cynrychioli 4.9% o farwolaethau ffetws a marwolaethau babanod yn gyffredinol yn 2012.



Yng nghyfrifiad 2011 Cymru a Lloegr, roedd **14.1%** o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn disgrifio'u hiechyd fel gwael neu wael iawn. Y grŵp gyda'r iechyd a ystyrir yn ail tlotaf oedd Gwyn Gwyddelig (**9.2%**), wedi'i ddilyn gan Ddu Caribiaidd (**6.7%**), Gwyn Prydeinig (**5.9%**), ethnigrwydd 'Arall' (**5.7%**), Bangladeshaid (**5.6%**) a Phacistanaidd (**5.5%**). **Yn yr Alban**, mae cyfran fwy o Sipsiwn/Teithwyr yn ystyried eu hiechyd yn wael neu wael iawn (**15%**) o'i gymharu â'r cyfartaledd i'r Alban.



Yn Lloegr, roedd canran y bobl a oedd mewn perygl o iechyd meddyliol gwael yn uwch ymhlith pobl Bacistanaidd / Bangladeshaid ac Affricanaidd / Caribiaidd / Du (**22.9%** a **19.9%** yn y drefn honno) nag ymhlith pobl Wyn (**14.6%**) yn 2012. Nid oes data ar gael ar gyfer Cymru.

Mae oedolion a phlant o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn tldi

Ym Mhrydain, roedd gan oedolion o leiafrifoedd ethnig gyfradd tldi uwch na'r rhai Gwyn (17.5%) yn 2012/13. **Gyfradd tldi:**

43.8%	Bacistanaidd/Bangladeshaid
39.4%	Lleiafrifoedd ethnig 'Arall' Affricanaidd/Caribiaidd/Du
26.9%	Hil 'Cymysg'
24.6%	Pobl Indiaidd

Ym Mhrydain roedd cyfraddau tldi yn uwch ar gyfer plant sy'n byw mewn cartref a'r penteulu yn un o leiafrif ethnig (**41.9%**) o gymharu â rhywun o'r grŵp Gwyn (**24.5%**) yn 2012/13. Roedd y gyfradd tldi yn arbennig o uchel ar gyfer plant sy'n byw mewn cartref a'r penteulu yn Bacistanaidd / Bangladeshaid, Du neu bobl 'Arall' (rhwng **43.2%** a **49.3%**) tra bod y gyfradd tldi ar gyfer plant mewn teulu a'r penteulu yn berson Indiaidd yr un fath â hynny ar gyfer y grŵp Gwyn.



Mae rhai pobl o leiafrifoedd ethnig yn Lloegr yn teimlo'n llai diogel na phobl Wyn

Yn Lloegr mae'r ganran o ymatebwyr Gwyn (**29.2%**) a oedd yn teimlo'n annigol ar eu pen eu hunain yn y cartref yn y nos neu'n cerdded yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu yn is o gymharu ag ymatebwyr Du (**37.4%**), Asiaidd ac 'Arall' (**37.4%**), yn 2012/13. Yn yr Alban, nid oedd gwahaniaeth rhwng y gyfran o ymatebwyr Gwyn ac ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig. Nid oes data ar gael ar gyfer Cymru yn 2012/13.

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mae troseddau casineb o gymhelliant hiliol yn parhau i gael eu cofnodi'n amlaf gan yr heddlu. Yng Nghymru a Lloegr cofnodwyd **37,484** o droseddau casineb o gymhelliant hiliol gan yr heddlu yn 2013/14. Yn yr Alban adroddwyd **4,148** o honiadau i Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Cyllidol yn 2013/14.

Yn Lloegr mae canran y bobl a oedd yn poeni am fod yn destun ymosodiad corfforol oherwydd lliw eu croen, tarddiad ethnig neu grefydd, wedi gostwng rhwng 2008/09 (**4.4%**) a 2012/13 (**3.4%**). Yng Nghymru, roedd **2.5%** o ymatebwyr yn poeni am fod yn wrthrych ymosodiad corfforol oherwydd lliw eu croen yn 2012/13. Nid oedd hyn yn newid sylweddol o gymharu â 2008/09 (**2.8%**). Nid oes data ar gael ar gyfer yr Alban.



Mae pobl Wyn yn fwy tebygol na'r rhan fwyaf o bobl o leiafrifoedd ethnig i bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol

Ym Mhrydain dywedodd canran uwch o bobl Wyn (**93%**) eu bod wedi pleidleisio yn etholiadau 2015 y DU na phobl o'r grwpiau ethnig Du (**84.3%**), Pacistanaidd / Bangladeshaidd (**86.4%**), Cymysg (**84.8%**) ac 'Arall' (**83%**).

Gwelodd etholiad cyffredinol 2015 gynnydd yn Senedd y DU mewn canran o Aelodau Seneddol sydd yn dod o leiafrif ethnig o 4.2% i 6.3%.

